**Enw'r Ysgol: Dyffryn Ardudwy** **Cyfeiriad: Ysgol Dyffryn Ardudwy, Dyffryn Ardudwy, Gwynedd.**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu
Mae ystod eang o dasgau wedi eu cwblhau yn llyfrau gwaith y plant.e.e. sgyrsiau a deialogau, myfyrdodau, llythyrau, portreadau, gweddiau a.y.y.b.
Mae adroddiadau monitro gwersi hefyd yn cadarnhau bod llawer o'r plant wedi cael cyfleoedd i ymdrin â chwestiynau bywyd megis tlodi, rhyfel a thegwch. Mae adroddiadau Craffu ar Lyfrau hefyd yn nodi bod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o symbolau a defodau crefyddol.
Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cynnydd disgwyliedig .

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Mae adroddiadau monitro eto'n cadarnhau bod y disgyblion wedi bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddarllen er mwyn cywain gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ac fe gyflwynir llawer o gwaith trwy gyfrwng rhaglenni prosesu geiriau.
Mae adroddiadau arsylwi gwersi yn dangos bod cyfleoedd rheoliadd wedi bod i ddatblygu sgiliau meddwl megis mynegi barn, trafod a holi cwestiynau e.e. holi'r ficer lleol.
Mae disgyblion CA2 yn defnyddio'r medrau'n effeithiol ac, ar y cyfan, i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Materion i gael sylw**
Mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni tasgau ysgrifennu estynedig o fewn y cwricwlwm Addysg Grefyddol. (tueddiad i weld paragraffau yn hytrach na darnau estynedig o waith.
Mae angen darparu mwy o gyfloedd i ddatblygu rhifedd trwy gyfrwng Addysg Grefyddol.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae cynlluniau gwaith tymor canolig a byr yn sicrhau bod ein darpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn dda. Mae'r athrawon yn sicrhau bod agweddau Addysg Grefyddol yn rhan annatod o phob thema dymhorol ac mae arfarniadau diweddar yn cadarnhau bod yr addysgu'n briodol gyda chyflwyniadau symbylus yn cael eu defnyddio i ysgogi gwaith y plant.
Mae plant yr adrna iau yn derbyn awr yr wythnos o wers Addysg Grefyddol ac mae ymarferion craffu hefyd yn dangos bod darpariaeth dda ar gyfer cyflwyno Addysgol grefyddol yn y CS.
Yn ogystal, mae effaith ein strategaethau Asesu Ar Gyfer Dysgu wedi gwella gallu'r plant i drafod eu syniadau gyda'i gilydd.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

| |
|---|
| Mae dull cynllunio tymhorol yr ysgol yn sicrhau bod yn rhaid i'r medrau gael sylw teilwng o fewn pob cynllun gwaith. |
| **Materion i gael sylw**<br>Mae angen sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu gwaith ym ymwneud â chrefyddau eraill.<br>Angen sicrhau bod disgyblion yn ail-ymweld â Gridiau GEU ar ôl cwblhau unedau o waith. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae polisi Addoli Ar Y Cyd gan yr ysgol. Mae hwn yn sicrhau bod egwyddorion, strwythr, amserlen a dilyniant i'r addoli. Mae'r cynllun yn nodi'r agweddau a gyflwynir megis straeon Beibliadd, straeon gyda goblygiadau moesol, cymdeithasol ac ysbrydol iddynt yn ogystal ag agweddau o ABaCh. Mae'r polisi yma'n cyfeirio at wasanaethau dosbarth, gwasanaethau ysgol gyfan ac yn ystyried rôl ymwelwyr i'r ysgol ar gyfer cynnal gwasnaethau megis cynllun 'Agor y Llyfr' a weithredir gan yr Eglwys leol.<br>Nodwyd gan yr arolygwyr yn dilyn gweld ein gwasanaeth boreuol bod ein darpariaeth ar gyfer datblygiad moesol y disgyblion yn dda. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Sicrhau mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan yn y gwasnaethau ysgol gyfan.<br>Datblygu gwaith y Cyngor Ysgol i fod yn mynegi barn ar yr hyn yr hoffent ei weld yn datblygu'n y gwasanaethau. | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Ann Jones (Pennaeth)

Dyddiad: Ionawr 21/01/15